# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

**HAF 2022**

**SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 5**
**1570N50-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**UNED 5: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

## Adran A

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.<br><br>(a) | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Ioan ac atebwch y cwestiynau isod.*<br><br>*Amlinellwch **dri** ffactor seicolegol fyddai wedi gallu cael effaith ar Ioan.*<br><br>Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor seicolegol cywir (hyd at uchafswm o dri ffactor) yn yr astudiaeth achos a fyddai wedi gallu cael effaith ar Ioan.<br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau seicolegol a fyddai wedi gallu cael effaith ar Ioan.<br>Rhowch **2 farc** am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffactorau seicolegol a fyddai wedi gallu cael effaith ar Ioan.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw dri o'r canlynol:<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a wnaeth ddylanwadu arno i fod am helpu eraill – gallai gael effaith negyddol ar ei iechyd meddwl h.y. iselder<br>• ar ôl cael ei fagu mewn tlodi heb lawer o fwyd, roedd am helpu eraill mewn sefyllfa debyg<br>• chwalodd priodas ei rieni a symudodd ei dad allan, felly roedd yn gyfrifol am ei frawd ifancach<br>• roedd ei fam yn alcoholig ac nid oedd yn gallu ei hatal rhag gwario ei harian ar alcohol, felly daeth o hyd i ffyrdd eraill o fwydo'i hun a'i frawd<br>• symudodd i hostel yn 16 oed a daeth yn fwy penderfynol o ennill cymwysterau ac astudio'n galed<br>• rhoddodd ei allu i ymdopi o dan amodau anodd ffordd o feddwl gadarnhaol a hunan-barch cadarnhaol iddo ac awydd i helpu eraill mewn angen<br>• byddai priodi a chael plant yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad a pherthyn iddo<br><br>Gall ymgeiswyr gyfeirio at effeithiau negyddol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **6**<br><br>**[2,2,2]** | | | **6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol i Ioan o fod yn wydn (resilient).*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae effeithiau cadarnhaol bod yn wydn i Ioan yn cynnwys y canlynol:<br>• mae wedi addasu i'r gwahanol sefyllfaoedd y mae wedi'u profi<br>• gall ddibynnu ar ei adnoddau mewnol ei hun<br>• gall gyflawni ei botensial ei hun<br>• mae wedi datblygu hunangysyniad/hunan-barch cadarnhaol<br>• mae'n gallu gwrthsefyll straen<br>• gall fownsio nôl ar ôl methu<br>• mae'n datblygu darlun mwy cywir o'r byd.<br>• mae'n gwybod sut i ymdopi er gwaethaf anawsterau neu rwystrau neu adnoddau prin<br>• roedd am ddod yn weithiwr cymdeithasol a helpu'r rheini sy'n byw ar eu pen eu hunain ac mewn tlodi a galluogodd yr awydd hwn iddo oresgyn rhwystrau a gwireddu ei uchelgais<br><br>Rhowch farciau am ymatebion sy'n cyfeirio at y canlynol:<br>Mae gwydnwch yn golygu gwybod sut i ymdopi er gwaethaf anawsterau neu rwystrau neu adnoddau prin. Mae gwydnwch yn mesur faint mae unigolyn am gael rhywbeth ac i ba raddau y mae'n barod i oresgyn rhwystrau i'w gael, neu'n gallu goresgyn rhwystrau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **6** | | | **6** |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th>Band</th><th>AA1</th></tr>
<tr><td>3</td><td>5-6 marc<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<ul><li>gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o effeithiau cadarnhaol bod yn wydn i Ioan</li><li>dealltwriaeth hyderus o'r cysyniad o wydnwch</li></ul></td></tr>
<tr><td>2</td><td>3-4 marc<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<ul><li>gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o effeithiau cadarnhaol bod yn wydn i Ioan</li><li>dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cysyniad o wydnwch</li></ul></td></tr>
<tr><td>1</td><td>1-2 farc<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<ul><li>rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau cadarnhaol bod yn wydn i Ioan</li><li>rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniad o wydnwch</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td>0 marc<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Gan ddefnyddio damcaniaeth cyflyru Skinner (Skinner's theory of conditioning), esboniwch pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol.*<br><br>Dylai atebion gyfeirio at ddamcaniaeth cyflyru Skinner i esbonio pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol:<br>Bydd atgyfnerthu cadarnhaol neu wobrwyo math penodol o ymddygiad yn gwneud yn siŵr y caiff yr ymddygiad ei ailadrodd neu ei fod yn fwy tebygol o ddigwydd.<br>• Bydd cosbi math penodol o ymddygiad yn ei gwneud hi'n llai tebygol y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto.<br><br>Mae damcaniaeth Skinner yn esbonio nad yw Ioan wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol gan na wnaeth weld na derbyn unrhyw ganlyniadau neu wobrau cadarnhaol o ddibyniaeth ei fam ar alcohol am y rhesymau canlynol:<br>• gadawodd ei dad gartref<br>• roedd ef a'i frawd yn aml yn llwgu<br>• roedd yn rhaid iddo chwilota am fwyd yn y biniau y tu allan i'r archfarchnad<br>• gadawodd gartref yn 16 oed<br>• rhoddwyd ei frawd mewn gofal maeth<br>• Ni welodd Ioan unrhyw wobrau na chanlyniadau cadarnhaol am ddibyniaeth ar alcohol ac felly roedd yn llai tebygol o gopïo patrwm ymddygiad ei fam.<br><br>Roedd Skinner yn ymddygiadwr; datblygodd y ddamcaniaeth cyflyru gweithredol, sef y syniad bod ymddygiad yn cael ei bennu gan ei ganlyniadau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | **8** | | **8** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol<br>• dealltwriaeth hyderus o ddamcaniaeth cyflyru Skinner |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth cyflyru Skinner |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o ddamcaniaeth cyflyru Skinner |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o pam dydy Ioan ddim wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol<br>• dealltwriaeth brin o ddamcaniaeth cyflyru Skinner |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2. | *Roedd gan Paula, mam Ioan, hanes teuluol o ddibyniaeth ar alcohol.* | | | | |
| (a) | *Dadansoddwch sut mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol (proactive) yn gallu cefnogi oedolyn sydd â dibyniaeth ar alcohol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog a gallant gefnogi oedolyn sydd â dibyniaeth ar alcohol drwy wneud y canlynol:<br>• dod i adnabod yr unigolyn a datblygu perthynas dda sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth ac empathi sy'n gwneud i'r unigolyn deimlo nad yw'n cael ei farnu<br>• parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir unigol<br>• cymryd amser i ddod i wybod am ei:<br>• ddymuniadau personol<br>• sgiliau a galluoedd<br>• ei hoff arddull gyfathrebu a strwythur cefnogaeth<br>• deall effaith ei amgylchedd arno<br>• ystyried y rhesymau sylfaenol dros ei ddibyniaeth ar alcohol mewn ffordd gyfrinachol<br>• nodi ffyrdd priodol o roi gofal a chymorth cyson mewn ffordd wedi'i dewis gan yr unigolyn a gan bobl sy'n deall ei amgylchiadau unigol<br>• helpu'r unigolyn i wneud rhywbeth cadarnhaol am ei ddibyniaeth<br>• helpu'r unigolyn i gyflawni ei nodau bywyd heb alcohol<br>• datblygu a monitro cynlluniau sy'n amlinellu anghenion unigolyn, y canlyniadau llesiant a ddymunir a'r ffyrdd y caiff ei gefnogi i'w cyflawni.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | **8** | **8** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol yn gallu cefnogi oedolyn sydd â dibyniaeth ar alcohol<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â sail dulliau cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol yn gallu cefnogi oedolyn sydd â dibyniaeth ar alcohol<br>• ymgysylltiad trylwyr â sail dulliau cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• dehongliad dilys ar y cyfan o sut mae dulliau cadarnhaol a/neu ragweithiol yn gallu cefnogi oedolyn<br>• ymgysylltiad syml â sail dulliau cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dehongliad prin o sut mae dulliau cadarnhaol neu ragweithiol yn gallu cefnogi oedolyn<br>• ymgysylltiad prin â sail dulliau cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Disgrifiwch ddamcaniaeth fiolegol Eysenck a thrafodwch sut byddai'r ddamcaniaeth hon yn gallu egluro dibyniaeth Paula ar alcohol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Cynigiodd Eysenck ddamcaniaeth personoliaeth yn seiliedig ar ffactorau biolegol, gan ddadlau'r canlynol:<br>• bod unigolion yn etifeddu math o system nerfol sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu ac addasu i'r amgylchedd<br>• natur a magwraeth h.y. bod y nodweddion geneteg sydd gan unigolyn adeg ei eni a'r amgylchedd y caiff ei fagu o'i fewn yn dylanwadu ar ddatblygiad personoliaeth ac ymddygiad unigolyn<br>• mai etifeddiaeth genetig wedi'i chyfuno â chyflyru a chymdeithasoli yn ystod plentyndod sy'n creu ein personoliaeth a'n hymddygiad<br><br>Gall trafodaeth ar sut byddai'r ddamcaniaeth yn gallu egluro dibyniaeth Paula ar alcohol gyfeirio at:<br>• byddai Paula wedi etifeddu personoliaeth gaethiwus gan ei mam a'i mam-gu<br>• cafodd yr amgylchedd lle cafodd ei magu hefyd ddylanwad ar ei hymddygiad, byddai wedi gweld ei mam yn yfed gormod o alcohol ac wedi ystyried bod hyn yn dderbyniol<br>• gallai Paula fod wedi copïo ymddygiad ei mam a byddai wedi dod yn rhan o'i phatrwm ymddygiad arferol<br>• gallai'r amgylchedd anodd y daeth Paula yn rhan ohono pan oedd yn hŷn fod wedi cefnogi'r rhagdueddiad genetig hwn i ddod yn ddibynnol ar alcohol:<br>• ei phriodas yn chwalu<br>• magu dau blentyn ar ei phen ei hun<br>• roedd ceisio ymdopi ar fudd-daliadau yn achosi straen<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **6** | | **6** | **12** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth fiolegol Eysenck<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o nodweddion allweddol perthnasol. | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda iawn sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o'r berthynas rhwng damcaniaeth fiolegol Eysenck a dibyniaeth Paula ar alcohol<br>• ymgysylltiad trylwyr â damcaniaeth fiolegol Eysenck. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth fiolegol Eysenck<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o nodweddion allweddol. | **3-4 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• dehongliad dilys ar y cyfan o'r berthynas rhwng damcaniaeth fiolegol Eysenck a dibyniaeth Paula ar alcohol<br>• ymgysylltiad syml â damcaniaeth fiolegol Eysenck. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o ddamcaniaeth fiolegol Eysenck<br>• dealltwriaeth brin o nodweddion allweddol. | **1-2 farc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• dehongliad prin o'r berthynas rhwng damcaniaeth fiolegol Eysenck a dibyniaeth Paula ar alcohol<br>• ymgysylltiad prin â damcaniaeth fiolegol Eysenck. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran B**

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3. | *Mae Nia yn 23 oed ac mae'n byw ag anabledd dysgu. Mae ganddi swydd ran-amser, mae'n gwirfoddoli mewn siop elusen, ac mae'n byw yn ei fflat ei hun. Mae hi'n cael awr o gefnogaeth yn y bore, ac eto gyda'r nos. Nod y gefnogaeth weithredol yma yw helpu Nia i ddatblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen arni i fyw bywyd cwbl annibynnol. Yn ddiweddar, mae staff cefnogi wedi sylwi bod Nia yn cael trafferth ymdopi, a'i bod hi wedi dechrau casglu (hoarding) sbwriel a sbarion bwyd (food leftovers). Mae cyfarfod wedi'i drefnu â Nia i drafod y ffordd orau o wella'r sefyllfa.* | | | | |
| (a) | *Disgrifiwch beth yw ystyr Cefnogaeth Weithredol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae cefnogaeth weithredol yn ddull person-ganolog o roi cefnogaeth uniongyrchol. Y nod yw sicrhau bod cefnogaeth barhaus ar gael i unigolion er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau bywyd a chyfleoedd o'u dewis.<br>• Bod yn rhan o gymuned<br>• Meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n para<br>• Y cyfle i ddatblygu a phrofi sgiliau newydd<br>• Cael dewis a rheolaeth dros eu bywyd<br>• Cael eu parchu a'u gwerthfawrogi<br>• Cael eu trin fel unigolyn<br>• Mae'n helpu unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **4** | | | **4** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
| --- | --- |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o beth yw ystyr Cefnogaeth Weithredol<br>• dealltwriaeth glir o ystyr Cefnogaeth Weithredol |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o beth yw ystyr Cefnogaeth Weithredol<br>• ymateb cyfyngedig â dealltwriaeth brin o Gefnogaeth Weithredol |
| | **0 marc**<br>• Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Esboniwch ffactorau fyddai wedi gallu cael effaith ar ymddygiad Nia yn ddiweddar.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• Mae gan Nia anabledd dysgu a all olygu ei bod yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu ac na all ddweud wrth ei gweithwyr cefnogi beth y mae hi angen iddynt ei wneud i'w helpu<br>• Nid yw sgiliau bywyd Nia wedi'u datblygu ddigon iddi reoli ei bywyd yn effeithiol<br>• Mae'n bosibl y bydd Nia yn teimlo dan straen wrth geisio rheoli ei swydd a'i gwaith gwirfoddoli<br>• Gall unigolion ag anableddau dysgu deimlo dan straen os bydd eu trefn yn cael ei newid mewn unrhyw ffordd<br>• Gall Nia fod yn ei chael hi'n anodd byw ar ei phen ei hun a gall fod angen mwy o gefnogaeth arni i reoli ei hymrwymiadau.<br>• Gall Nia fod yn ei chael hi'n anodd deall beth sy'n dderbyniol o ran ymddygiad<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | **6** | | **6** |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ffactorau sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad<br>• dealltwriaeth hyderus o'r ffactorau sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad Nia |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad Nia |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o ffactorau sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad<br>• ymateb cyfyngedig sy'n nodi o leiaf un ffactor sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad Nia |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Archwiliwch sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi (enable) unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae Cynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn gynllun gofal a chymorth unigol sy'n hysbysu gweithwyr gofal a chymorth sut i helpu unigolyn i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• cael eu llywio gan asesiadau<br>• cynnwys strategaethau rhagweithiol wedi'u cynllunio i wella ansawdd bywyd yr unigolyn<br>• dileu amodau sy'n hybu ymddygiad heriol<br>• anelu at wella ansawdd bywyd yr unigolyn<br>• lleihau'r angen i ddangos ymddygiad heriol<br>• helpu i leihau'r defnydd o arferion cyfyngol a chael gwared arnynt<br>• cynnwys strategaethau rhagweithiol y bwriedir iddynt sicrhau bod gan yr unigolyn yr hyn y mae ei angen arno ac y mae am ei gael o ddydd i ddydd ac sy'n cynnwys ffyrdd o helpu'r unigolyn i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau bywyd priodol<br>• caiff strategaethau adweithiol eu cynnwys hefyd fel y bo angen ac maent wedi'u cynllunio i gadw'r unigolyn a'r bobl o'i gwmpas yn ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn darparu ffordd o ymateb yn gyflym mewn sefyllfa lle mae'r person yn ofidus neu'n bryderus ac yn fwy tebygol o ddangos ymddygiad heriol<br><br>Mae Cynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol da yn cynnwys mwy o strategaethau rhagweithiol na strategaethau adweithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y ffocws yn parhau ar sut i gefnogi'r unigolyn i gael bywyd da, gan ei alluogi i ddysgu'n well, ffyrdd mwy effeithiol o gael yr hyn sydd ei angen arno heb orfod ymddwyn mewn ffordd heriol. | | | **8** | **8** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Os defnyddir Cynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn gyson, bydd yn hynod lwyddiannus wrth wneud y canlynol:<br>• helpu'r unigolyn i ddod o hyd i ffyrdd eraill o gyfleu ei anghenion a'i ddewisiadau sy'n osgoi'r angen i ymddwyn mewn ffordd heriol<br>• helpu gofalwyr i nodi pan fydd unigolyn o bosibl yn dangos ymddygiad heriol, gan roi cyfle iddynt ymyrryd cyn i'r ymddygiad waethygu<br>• osgoi achos llawn o ymddygiad heriol<br>• darparu dull cyson, clir ac effeithiol sy'n golygu bod gofalwyr a gweithwyr cefnogi yn defnyddio'r un technegau wrth gefnogi unigolion yn hytrach na sefyllfa lle bydd pawb 'yn gwneud beth bynnag y mynnont' yn seiliedig ar eu barn bersonol am yr hyn sydd orau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Archwiliad ardderchog sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â'r cysyniad o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol |
| **3** | **5-6 marc**<br>Archwiliad da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol<br>• ymgysylltiad trylwyr â'r cysyniad o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Archwiliad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol<br>• ymgysylltiad syml â'r cysyniad o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Archwiliad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• barn brin am sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol<br>• ymgysylltiad prin â'r cysyniad o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol er mwyn galluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. | *Mae Josef yn 84 oed. Mae'n colli ei gof (has memory loss), ac mae'n mynychu grŵp hel atgofion (math o therapi siarad). Mae'n hapus ac yn gadarnhaol am ei fywyd. Mae Josef yn aml yn sôn am sut roedd pawb, yn y gorffennol, yn cefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnodau anodd. Er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu gofalu am anghenion Josef a'i chwaer, roedd rhieni Josef yn mynd heb (went without). Yn ôl Josef, mae e bob amser wedi bod â digon o arian i ymdopi. Bu farw gwraig Josef ddwy flynedd yn ôl, ond mae'n teimlo'n lwcus ei fod wedi cael priodas hyfryd a theulu cariadus. Mae'n cael trafferth deall pam mae pobl yn cwyno am bethau; mae'n dweud mai 'chi sy'n gyfrifol am eich bywyd (life is what you make it)'.* | | | | |
| (a) | *Amlinellwch* ***ddau*** *ffactor cymdeithasegol fyddai wedi gallu dylanwadu ar agwedd Josef tuag at fywyd.*<br><br>Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor cymdeithasegol cywir (hyd at uchafswm o ddau) yn yr astudiaeth achos a fyddai wedi gallu dylanwadu ar agwedd Josef tuag at fywyd.<br><br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau a fyddai wedi gallu dylanwadu ar agwedd Josef tuag at fywyd.<br><br>Rhowch **2 farc** am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffactorau a fyddai wedi gallu dylanwadu ar agwedd Josef tuag at fywyd.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw **ddau** o'r canlynol:<br>• Mae gan Josef atgofion hapus o'i fywyd teuluol pan oedd yn tyfu i fyny<br>• Cafodd Josef ei fagu mewn amgylchedd cadarnhaol ac nid oedd byth yn mynd heb<br>• Cafodd Josef ei fagu mewn amgylchedd lle roedd pawb yn cefnogi ei gilydd<br>• Roedd gan Josef briodas hapus a theulu cariadus<br>• Roedd rhieni Josef yn fodelau rôl cadarnhaol iddo<br>• Roedd gan Josef bob amser ddigon o arian i ymdopi.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **4**<br><br>**[2,2]** | | | **4** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Esboniwch, gan ddefnyddio damcaniaeth wybyddol, pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae damcaniaeth wybyddol yn galluogi Josef i feddwl yn gadarnhaol am ei fywyd am y rhesymau canlynol:<br>• nid beth sy'n digwydd i unigolyn sy'n ei wneud yn hapus neu'n drist ond y ffordd y mae'r unigolyn yn meddwl am ddigwyddiadau bywyd sy'n arwain at deimladau cadarnhaol neu negyddol e.e. mae wedi prosesu ei feddyliau mewn ffordd gadarnhaol, (metawybyddiaeth), ac mae'n eu cysylltu â hapusrwydd.<br>• nid yw'n ystyried unrhyw rai o'r dylanwadau yn ei fywyd fel rhai negyddol<br>• gall fod wedi gwrthod unrhyw feddyliau negyddol am ei fywyd gan nad ydynt yn gwneud iddo deimlo'n hapus<br>• nid yw'n gallu deall pam mae unigolion sy'n eu cael eu hunain mewn amgylchiadau tebyg yn cael meddyliau a theimladau negyddol ac yn methu ag ymdopi<br>• pan fydd unigolyn yn meddwl, mae'r ymennydd yn dehongli gwybodaeth.<br>• gall unigolion o wahanol gefndiroedd ystyried yr un wybodaeth mewn ffordd wahanol a chredu mai eu dehongliad nhw sy'n cynnig cynrychioliad cywir o realiti.<br>• mae'r cof dynol yn dewis a dethol yr hyn a gaiff ei gofio gan yr unigolyn ac mae'n aml yn gwyro'r hyn a brofwyd. Mae'r cof yn creu fersiwn o'r hyn a brofwyd. Bydd yr hyn a gaiff ei gofio yn dibynnu ar y ffordd y mae unigolyn wedi dysgu meddwl.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | **6** | | **6** |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd.<br>• dealltwriaeth hyderus o ddamcaniaeth wybyddol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd.<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth wybyddol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd.<br>• dealltwriaeth brin o ddamcaniaeth wybyddol. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Disgrifiwch sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy'n colli eu cof.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Gall therapi siarad roi cefnogaeth i wneud y canlynol:<br>• cynnwys teulu a ffrindiau mewn gweithgareddau (gall fod wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn)<br>• galluogi i ryw fath o lyfr hanes bywyd gael ei greu<br>• helpu unigolyn i ddiffinio ei hunaniaeth ei hun<br>• ailgadarnhau ystyr bywyd i unigolyn drwy ei gysylltiad â'r gorffennol ac ailddatgan y teimlad o bwysigrwydd<br>• gwella gallu unigolyn i gyfathrebu drwy rannu profiadau bywyd, atgofion a straeon o'r gorffennol – gan ddefnyddio gwrthrychau, cerddoriaeth a ffotograffau<br>• darparu rhyddhad rhag diflastod neu dynnu sylw oddi ar broblemau cyffredin<br>• gwella hunan-werth ac ymdeimlad o berthyn yn y byd<br>• rhyngweithio ag eraill sy'n colli eu cof drwy weithgareddau grŵp<br>• ysgogi gweithgarwch meddyliol a gwella llesiant oherwydd gall oedolyn sy'n colli ei gof gofio mwy o bethau o flynyddoedd yn ôl yn hytrach nag atgofion diweddar<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | **6** | | | **6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy’n colli eu cof<br>• dealltwriaeth hyderus o'r dull therapi siarad |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy’n colli eu cof<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r dull therapi siarad |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy’n colli eu cof<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r dull therapi siarad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (ch) | *Trafodwch sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae Josef yn ystod camau diweddar oedolaeth ac mae'n bosibl y bydd yn profi newidiadau ym mhob agwedd ar ei ddatblygiad sy'n gallu effeithio ar ei ymddygiad.<br><br>Datblygiad corfforol:<br>• gall dirywiad yn ei olwg a'i glyw effeithio ar ei allu i gyfathrebu, gan olygu y bydd yn mynegi rhwystredigaeth wrth beidio â gallu cyfleu ei anghenion a'i ddymuniadau<br>• dirywiad o ran ei lesiant corfforol. Gall brofi cyflyrau iechyd cronig e.e. osteoarthritis, a all effeithio ar ei symudedd a chyfyngu ar ei allu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu gan arwain at ymddieithrio o fywyd pob dydd<br><br>Datblygiad deallusol<br>• mae'r cof yn dod yn llai effeithlon a gall ddirywio i lefel lle na all gymryd rhan mewn gweithgareddau pob dydd na gofalu amdano'i hun heb gefnogaeth. Gall Josef golli hunanhyder a gall fod cywilydd arno oherwydd ei anawsterau.<br>• gall colli'r cof hefyd arwain at ymddygiad gwrthdrawiadol (*confrontational*). Gall Josef gyhuddo eraill o fod wedi symud neu ddwyn eitemau y mae ef ei hun wedi'u rhoi yn rhywle gwahanol<br><br>Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol<br>• gwyrdroi rolau – mae ei blant bellach yn gofalu amdano ef. Gall hyn effeithio ar ei hunan-barch ac achosi i Josef deimlo'n isel ac yn bryderus am ei ddyfodol ac yn ddig tuag at ei sefyllfa<br>• Mae Josef wedi cael profiad o bartner yn marw a gall hefyd golli teulu a ffrindiau, gan arwain at unigedd ac ynysigrwydd ac at encilio o weithgareddau pob dydd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | **8** | **8** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Trafodaeth ardderchog:<br>• barn graff a gwybodus am sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â phob maes datblygu allweddol sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad |
| **3** | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• barn resymegol am sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad<br>• ymgysylltiad trylwyr â phob maes datblygu allweddol sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad |
| **2** | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad<br>• ymgysylltiad syml â rhai meysydd datblygu allweddol sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad |
| **1** | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• barn brin am sut byddai cyfnod datblygiad Josef yn gallu dylanwadu ar ei ymddygiad<br>• ymgysylltiad prin â phob maes datblygu allweddol sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad |
|  | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | *Mae model Skilled Helper Egan yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan gwnselwyr er mwyn helpu pobl i ddelio â materion sydd o bosibl yn effeithio ar eu hymddygiad.*<br><br>*Disgrifiwch y 3 cam ym model Skilled Helper Egan ac aseswch sut mae'r model hwn yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae model Skilled Helper Egan yn anelu at helpu unigolyn i gyflawni newid parhaus ac i'w rymuso i ymdopi â'i broblemau ei hun yn fwy effeithiol ac i ddatblygu cyfleoedd nad yw wedi manteisio arnynt yn well.<br><br>Mae'r model yn cynnwys tri cham:<br>• Cam 1 – Archwilio – Beth sy'n digwydd? Mae'r cwnselydd yn anelu at ddarganfod beth sy'n digwydd i unigolyn yn ei eiriau ei hun ac wedyn ei adlewyrchu nôl ato heb farnu<br><br>• Cam 2 – Herio – Beth ydw i am ei gael yn lle hynny? Mae'r cwnselydd yn herio safbwyntiau presennol yr unigolyn – fesul mater unigol. Gan annog yr unigolyn i feddwl a oes ffordd arall o ystyried y mater.<br><br>• Cam 3 – Cynllunio camau gweithredu – Sut gallwn i gyflawni fy nodau? Mae'r cwnselydd yn anelu at droi bwriadau da yn ganlyniadau gwirioneddol, drwy alluogi'r unigolyn i osod targedau realistig, ymarferol a chyflawnadwy. Dylid trefnu cyfarfodydd dilynol er mwyn gweld a gyflawnwyd y targedau. Os na chafodd y targedau eu cyflawni, ni chaiff yr unigolyn ei farnu a bydd y cwnselydd yn helpu'r unigolyn i ddeall y rhesymau a symud ymlaen<br><br>**Y Pethau Cadarnhaol**<br><br>Mae model Skilled Helper Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog yn llawn a chânt eu cynnwys ym mhob cam. | **8** | | **10** | **18** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r cam archwilio yn cynnwys y canlynol:<br>• dod i adnabod yr unigolyn a dangos parch drwy wneud y canlynol:<br>  ○ bod yn sylwgar<br>  ○ gwrando'n weithredol<br>  ○ derbyn a dangos empathi<br>  ○ aralleirio a chrynhoi'r hyn a ddywedwyd<br>  ○ canfod pa fater sydd bwysicaf<br>  ○ adlewyrchu teimladau – helpu i ddatguddio meysydd cudd neu fylchau o ran canfyddiadau ac asesu'r sefyllfa<br>  ○ holi heb fod yn wrthdrawiadol<br>• deall ei hoff bethau, ei gas bethau, ei sgiliau, ei alluoedd, a'i ddewis arddull gyfathrebu<br><br>Mae'r cam herio yn cynnwys y canlynol:<br>• deall effaith yr amgylchedd ar yr unigolyn<br>• nodi sut y gellir helpu'r unigolyn i symud ymlaen<br><br>Mae'r cam cynllunio camau gweithredu yn cynnwys y canlynol:<br>• datblygu cynlluniau yn ôl anghenion yr unigolyn a'i ganlyniadau dymunol monitro cynnydd unigol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall sy'n cyfeirio o bosibl at agweddau negyddol ar y model. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o fodel *Skilled Helper* Egan<br>• dealltwriaeth hyderus o nodweddion allweddol perthnasol pob cam | **9-10 marc**<br>Asesiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut mae model *Skilled Helper* Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â model *Skilled Helper* Egan<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o fodel *Skilled Helper* Egan<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o nodweddion allweddol perthnasol pob cam | **6-8 marc**<br>Asesiad da iawn sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut mae model *Skilled Helper* Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymgysylltiad trylwyr â model *Skilled Helper* Egan<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fodel *Skilled Helper* Egan<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o nodweddion allweddol pob cam | **3-5 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am sut mae model *Skilled Helper* Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymgysylltiad syml â model *Skilled Helper* Egan<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o fodel *Skilled Helper* Egan<br>• dealltwriaeth brin o nodweddion allweddol pob cam | **1-2 farc**<br>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• barn brin am sut mae model *Skilled Helper* Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymgysylltiad prin â model *Skilled Helper* Egan<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.5.1 | 2.5.2 | 2.5.3 | | | | | |
| **1** | (a) | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | 6 | | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | 8 | | (a) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **2** | (a) | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| | (b) | | 12 | | (a) | **12** | 6 | 0 | 6 |
| Adran A | | 12 | 20 | 8 | | **40** | **18** | **8** | **14** |
| **3** | (a) | | | 4 | (a) | **4** | 4 | 0 | 0 |
| | (b) | 6 | | | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4** | (a) | 4 | | | (a) | **4** | 4 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | 6 | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (ch) | 8 | | | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | | 8 | 10 | (a) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | 18 | 20 | 22 | | **60** | **22** | **12** | **26** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y marciau** | **30** | **40** | **30** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.